Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrin Tredelerch**

**Neuadd y Sgowtiaid**
**Cemaes Crescent**
**Tredelerch**
**Caerdydd**
**CF3 1TA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/01/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrin Tredelerch

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrin Tredelerch Cyfyngedig |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Medi 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, ac ar yr achlysur hwn, dim ond themâu Llesiant a'r Amgylchedd y gwnaethom eu hystyried.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn hapus yn y lleoliad hwn. Maent yn meithrin cydberthnasau agos a chynnes â'r staff gofal a'r plant eraill. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd braf â'i gilydd ac yn cydweithredu'n dda, gan gymryd eu tro a rhannu. Maent yn dangos mwynhad wrth chwarae ac maent yn siarad yn gadarnhaol am eu hamser yn y lleoliad.

Mae’r safle yn ddiogel. Mae mesurau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith, ac maent yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol sy'n cael eu defnyddio i nodi risgiau diangen i'r plant. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu mewn ffordd addas ar gyfer y plant sy'n mynychu ac mae'r gwasanaeth yn cynnwys digon o adnoddau y tu mewn.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn gwneud rhai penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd o'r ysgol, maent yn trefnu eu heiddo ac yn mynd yn syth i chwarae yn un o'r ardaloedd dysgu sydd ar gael. Maent yn gwybod y gallant ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn. Nid oedd ein hymweliad (Arolygiaeth Gofal Cymru) yn destun pryder iddynt ac roeddent yn hyderus ac yn hapus wrth sgwrsio am eu gweithgareddau. Er enghraifft, daeth grŵp o blant atom, yn cynnig bwyd ffug roeddent wedi'i wneud â thoes.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn addas ac mae'r plant yn cyd-chwarae'n llwyddiannus. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eu bod yn ffurfio cysylltiadau cadarnhaol â'r staff a'u cyfoedion. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae gyda'i gilydd yn y gegin chwarae rôl, yn paratoi bwyd ac yn cymryd eu tro i fod yn weinydd ac i goginio. Caiff plant nad ydynt wedi setlo eu cysuro mewn modd cynnes.

Mae'r plant yn hapus wrth chwarae a dysgu. Maent yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau eu hunain neu gyda ffrind. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda, gan ddangos diddordeb yn y gweithgareddau y maent wedi dewis eu gwneud am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, gwelsom un plentyn yn canolbwyntio ar dasg map trysor am gryn dipyn o amser.

Mae'r plant yn datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu. Cânt eu hannog i fwyta eu bwyd yn annibynnol yn ystod amser bwyd ac i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn ystod cyfleoedd chwarae rhydd.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau boddhaol i sicrhau diogelwch a llesiant y plant.  Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored. Mae'r rhain yn llywio rhestrau gwirio dyddiol sy'n cael eu defnyddio i nodi risgiau diangen i'r plant ac i'w dileu cymaint â phosibl. Nid oedd yr ardal awyr agored yn cael ei defnyddio yn ystod yr arolygiad oherwydd y tywydd gwael. Caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant ac mae caead ar bob bin. Mae bron pob un o'r argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad cofrestru mewn perthynas â'r amgylchedd wedi cael eu rhoi ar waith. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, mae'r rhain yn cynnwys cyfyngu mynediad y plant i ochr yr adeilad, gorchuddio pob pibell a rheiddiadur agored, giardiau bysedd ar gyfer y drysau ac amddiffyn rhag arwyneb garw'r adeilad. Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r risgiau amgylcheddol, y peryglon a'r mesurau diogelwch bellach wedi ei gau.

Mae'r neuadd yn fawr ac mae'n darparu digon o le ar gyfer yr ardaloedd dysgu a'r gweithgareddau a ddarperir. Caiff enghreifftiau o waith y plant bellach eu harddangos sy'n dechrau cefnogi ymdeimlad y plant o berthyn. Fodd bynnag, gan fod y safle yn gyfleuster amlddefnydd nid oes gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad reolaeth lawn dros arddangosfeydd ac addurniadau. Mae digon o doiledau a sinciau i'r plant sy'n mynychu. Fodd bynnag, mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gynlluniau i wella'r cyfleusterau ymhellach drwy osod basn ymolchi dwbl newydd. Mae'r man newid cewynnau wedi symud i'r toiled ar gyfer pobl anabl sy'n rhoi preifatrwydd ar gyfer urddas y plant. Cytunwyd y gall y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddefnyddio'r safle yn ystod gwyliau'r ysgol ac maent yn bwriadu cynnig darpariaeth yn y gwyliau yn y dyfodol. Maent yn dechrau cydweithio â phwyllgor y neuadd sy'n barod i gefnogi eu gwelliannau. O ganlyniad, maent yn bwriadu gwneud cais am gyllid i ddatblygu'r amgylchedd awyr agored er budd y plant sy'n cael gofal ganddynt.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Methodd yr Unigolyn Cyfrifol â chynnal asesiadau risg cadarn ar gyfer pob rhan o'r lleoliad ac nid yw'r gwiriadau dyddiol yn effeithiol wrth nodi'r risgiau i'r plant. Methodd â sicrhau bod y risgiau amgylcheddol, y peryglon a'r mesurau diogelwch yn cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r amgylchedd yn cynnwys risgiau y gellir eu hosgoi ac i sicrhau bod yr holl fesurau diogelwch ar waith. Rhaid iddo sicrhau bod yr asesiadau risg a'r gwiriadau diogelwch dyddiol yn effeithiol wrth nodi'r risgiau i'r plant. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/03/2023